

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (â rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Abertawe Bro Morgannwg**

**Practis Deintyddol West  
Cross**

10 Rhagfyr 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**Email:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Fax:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	4
2.	Methodoleg .....	4
3.	Cyd-destun.....	6
4.	Crynodeb .....	7
5.	Canfyddiadau .....	8
	Profiad y Claf.....	8
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .....	10
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	13
6.	Y Camau Nesaf.....	14
	Atodiad A.....	15

## 1. Cyflwyniad

Ar 10 Rhagfyr 2014, Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Bwrdd Iechyd (AGIC) arolygiad dirybudd o Bractis Deintyddol West Cross, 54c, Mulberry Avenue, West Cross, Abertawe, SA3 5HA, sydd yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

*Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well. Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru<sup>1</sup>.*

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

---

<sup>1</sup>Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. [www.weds.wales.nhs.uk/opensoc/214438](http://www.weds.wales.nhs.uk/opensoc/214438)

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol West Cross yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal West Cross, Abertawe. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, dwy nyrs a derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau a chyngor
- Pelydrau-x
- Triniaeth ataliol a thriniaeth beriodontol (deintgig)
- Llenwadau
- Tynnu dannedd
- Coronau, pontydd ac argaenau
- Gosod ac atgyweirio dannedd gosod
- Atgyfeiriadau orthodontig.

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis West Cross yn bodloni'r safonau gofal a geir yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Ar y cyfan cawsom fod y Practis yn bodloni'r safonau. Fodd bynnag, gwnaethom ofyn i berchennog y practis ddiweddarau'r weithdrefn gwyno er mwyn iddo lawn adlewyrchu trefniadau cyfredol Gweithio i Wella.

Ar y cyfan, roeddem yn teimlo bod y practis yn cael ei reoli'n dda. Roedd polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i lywio staff ac i sicrhau bod y driniaeth a ddarperir i gleifion yn ddiogel.

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.

Roedd amgylchedd y practis i'w weld wedi'i gynnal a'i gadw'n dda – yn fewnol ac yn allanol.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.**

**Gwnaethom ofyn i berchennog y practis diweddarau'r weithdrefn gwyno er mwyn iddo iawn adlewyrchu trefniadau cyfredol *Gweithio i Wella*.**

Gwnaethom siarad â phump o bobl a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod ein harolygiad. Dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn a'u bod bob amser yn derbyn croeso mawr gan staff y practis.

*'Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:*

*'Mae'r gwasanaeth yn iawn!'*

*'Roedd y derbynydd yn helpus iawn...'*

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Golygai hyn y gallai pobl fod yn hyderus, pe bai anawsterau gyda'u triniaeth, fod system ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cael apwyntiad arall yn brydlon.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth iddynt aros i gael eu gweld. Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn cael gwybod pe bai'r deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Roedd gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud cwyn wedi'i harddangos yn glir yn ystafell aros y practis. Fodd bynnag, nid oedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn. Er bod gweithdrefn ar waith er mwyn i gleifion godi pryderon (cwynion), mae'n dweud yn anghywir fod cleifion yn gallu gofyn am adolygiad gan yr Ysgrifenyddiaeth Adolygiadau Annibynnol. Mae angen diweddarau hyn gan nad yw bellach yn rhan o'r trefniadau cyfredol ar gyfer ymdrin â phryderon ynglŷn â gwasanaeth a thriniaeth y GIG, a adwaenir yn gyffredin fel Gweithio i Wella. Golygai hyn nad oeddem yn gallu bod yn sicr bod cleifion yn cael eu hysbysu am eu hawl i gyfeirio eu cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, pe na baent yn fodlon ar ymateb y practis.



## ***Argymhelliad***

***Dylai perchennog y practis ddiweddarau gweithdrefn gwyno ysgrifenedig y practis er mwyn iddo lawn adlewyrchu trefniadau Gweithio i Wella.***

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

### **Ar y cyfan gwelsom fod y practis yn bodloni'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd.**

Gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf a chanfod bod cofnodion manwl yn disgrifio'r driniaeth a'r cyngor a ddarperir gan y deintydd.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennau gorfodol wedi'u diweddarau – gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a phrofi a hyfforddiant staff. Roedd system addas ar waith er mwyn monitro ansawdd delweddu pelydrau-x y practis.

Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar adfywio cardio-pwlmonaidd ac roedd ganddynt fynediad at offer addas pe bai claf mewn argyfwng (cwympiad) yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis gyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig<sup>2</sup>(AED) i'w ddefnyddio pe bai rhywun yn cael ataliad ar y galon. Mae darparu cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig o fewn practisau deintyddol sylfaenol yn rhan o'r safonau gofynnol ar gyfer adfywio cardio-pwlmonaidd, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU).<sup>3</sup> O'r herwydd, rydym wedi argymhell y dylai perchennog y practis drefnu mynediad at yr offer hwn ar gyfer staff, a sicrhau eu bod yn gallu ei ddefnyddio yn ddiogel mewn argyfwng.

### ***Argymhelliad***

***Dylai perchennog y practis sicrhau bod gan staff fynediad at yr offer hwn, a sicrhau eu bod yn gallu defnyddio Cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig yn ddiogel mewn argyfwng.***

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys wedi'u storio'n ddiogel ac roedd system addas ar waith i waredu ar gyffuriau a oedd wedi dod i ben ac i roi rhai newydd yn eu lle.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio'r offerynnau a ddefnyddir yn y practis. Er bod maint a threfn y practis yn golygu nad oedd ystafell

---

<sup>2</sup>Dyfais a ellir ei ddefnyddio i roi sioc drydanol i galon rhywun sydd wedi cael ataliad ar y galon yw Cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig, er mwyn adfywio rhythm arferol y galon.

<sup>3</sup>Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli er mwyn hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol ac o safon uchel sy'n addas i bawb, a chyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, ymchwil a chydweithio.

ddadheintio ar wahân yn bosibl, roedd y trefniadau a oedd ar waith yn foddhaol. Roedd y cofnodion gorfodol wedi cael eu cynnal ac roedd yr offer a oedd yn cael ei ddefnyddio i'w weld mewn cyflwr da. Roedd prosesau addas ar waith ar gyfer glanhau cyn sterileiddio, sterileiddio a storio offer.

Roedd archwiliadau o ran rheoli heintiau wedi'u cynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05)<sup>4</sup>. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ac eitemau untro ar gael i leihau'r risg o groes-heintio.

Dywedodd perchen y practis fod contract ar waith ar gyfer gwaredu ar wastraff peryglus. Gwnaeth y ddogfennaeth a welsom gadarnhau hyn. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddioli er mwyn dangos y dull cywir o waredu arno ac roedd yn cael ei storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu.

---

<sup>4</sup>Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Ar y cyfan, roeddem yn teimlo bod y practis yn cael ei reoli'n dda. Roedd polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i lywio staff ac i sicrhau bod y driniaeth a'r gofal a ddarperir i gleifion yn ddiogel.**

Roedd un deintydd yn gweithio yn y practis, ac ef oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u gwahanol rolau a chyfrifoldebau. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda yn eu rolau a bod ganddynt fynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom gofnodion a ddangosai fod staff wedi mynychu hyfforddiant.

Gwelsom fod gan y practis ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu mewn ffordd ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dyddiadar bob un o'r rhain i ddangos ei fod wedi'i adolygu neu'i gwblhau. Golygai hyn nad oeddem yn gallu bod yn sicr bod polisïau'n cael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu arferion cyfredol. Gwnaethom dynnu sylw perchennog y practis at y mater hwn er mwyn iddo gymryd y camau priodol.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban a chadarnhaodd staff eu bod yn ymwybodol o'r broses mae angen ei dilyn. Er bod polisi ar waith, dywedodd staff wrthym y byddent yn hapus i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwaith â pherchennog y practis. Dywedodd staff wrthym hefyd fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn fisol a byddent yn trafod testunau sy'n berthnasol i'w gwaith. Dywedwyd wrthym fod maint y tîm o staff yn caniatáu iddynt siarad â'i gilydd yn rheolaidd, gan hwyluso cyfathrebu effeithiol yn y tîm.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau ac amserlenni gwaith cynnal a chadw. Gwnaeth y rhain gadarnhau bod yr offer wedi'i archwilio yn unol â'r gofynion gorfodol. O'r herwydd, roedd staff a chleifion yn gallu bod yn sicr bod systemau ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

### **Roedd amgylchedd y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda – yn fewnol ac yn allanol.**

Mae Practis Deintyddol West Cross yn bractis bychan yn ardal West Cross, Abertawe. Roedd lleoedd parcio ar gael ar y ffordd yn uniongyrchol y tu allan i'r practis.

Roedd gan y practis un ystafell driniaeth ac un man aros – a'r ddau ohonynt ar lawr cyntaf y practis. Mae'r dderbynfa hefyd ar y llawr cyntaf. Golygai hyn nad oedd yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, na phobl sydd â phroblemau symudedd sylweddol.

Gwelsom fod maint y man aros yn briodol ar gyfer nifer y cleifion sy'n mynychu'r practis. Roedd y man hwn yn lân ac yn daclus ac yn darparu man cyfforddus ar gyfer cleifion wrth iddynt aros i weld y deintydd. Gwnaethom argymhell y dylid rhoi arwyddion ychwanegol er mwyn i bobl ddod o hyd i'r dderbynfa'n haws. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Roedd rhif cysylltu y tu allan i oriau wedi'i arddangos yn glir ar ddrws y practis. Ar y cyfan, golygai hyn fod cleifion yn cael gwybod am rif cyswllt i'w ffonio, pe bai argyfwng pan fydd y practis ar gau. Roedd y rhif hwn hefyd i'w glywed ar beiriant ateb y practis.

Roedd toiled staff ar y llawr cyntaf a oedd yn lân yn ôl pob golwg ac ynddo gyfarpar golchi dwylo addas i atal croes-heintio. Roedd staff hefyd yn defnyddio'r ystafell hon i newid dillad.

Gwnaethom arsylwi bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – yn fewnol ac yn allanol. Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir.

Gwelsom fod deunydd a oedd yn hyrwyddo iechyd da wedi'i arddangos yn glir ar wal yr ystafell aros. Golygai hyd fod gan gleifion fynediad at wybodaeth berthnasol er mwyn iddynt ofalu am eu hiechyd a hylendid ceg eu hunain. Roedd hefyd ffeil a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol y practis, a oedd yn cynnwys offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd trefniadau addas ar waith i amddiffyn preifatrwydd cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth yn y practis.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad Cleifion a Chyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol West Cross yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

## Practis Deintyddol Cyffredinol Cynllun Gwella

Practis: **Practis Deintyddol West Cross**

Dyddiad yr Arolygiad: 10 Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Profiad y Claf</b>				
7	Dylai perchennog y practis ddiweddarau'r weithdrefn gwyno ysgrifenedig er mwyn iddo lawn adlewyrchu trefniadau Gweithio i Wella.	Mae deunydd cyffredol Gweithio i Wella wedi'i lawrlwytho a'i argraffu, ac mae ar gael ar gyfer cleifion.	Andrew Llewellyn	Wedi'i gwblhau
<b>Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru</b>				
8	Dylai perchennog y practis sicrhau bod gan staff fynediad at gyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig, a'u bod yn gallu ei ddefnyddio mewn ffordd ddiogel mewn argyfwng.	Cysylltwyd â'r Swyddog Dadebru yn Neoniaeth Cymru ynglŷn â chyflenwi a dangos sut i ddefnyddio cyfarpar Diffibrilio	Andrew Llewellyn	Erbyn Mawrth 2015
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
	-			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd yr Amgylchedd			
	-			

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (printiwch):**.....Andrew Llewellyn.....

**Teitl:** .....Mr.....

**Llofnod:**.....

**Dyddiad:** .....16-01-15.....